BDCT CTSB

BWRDD DIOGELU CWM TAF    CWM TAF SAFEGUARDING BOARD

# Bwrdd Diogelu Cwm Taf

# Cynllun Blynyddol

2018 - 2019

| Tabl Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| **Diogelu yng Nghwm Taf** | **3** |
| **Beth yw cam-drin ac esgeulustod?** | **4** |
| Diogelu i bawb | |
| Pwy yw aelodau'r Bwrdd Diogelu? | |
| **Pa ganlyniadau rydym am eu cyflawni eleni?** | **5** |
| 1: Mae Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau bod plant ac oedolion sydd mewn perygl yn gallu byw bywydau diogel | **6 - 7** |
| 2: Mae perfformiad y Bwrdd a'i bartneriaid yn cael ei fonitro a'i adolygu i sicrhau bod diogelu yng Nghwm Taf yn effeithiol | **8 - 10** |
| 3: Mae'r Bwrdd yn cyfrannu at ddatblygu, gweithredu a monitro protocolau a gweithdrefnau sy'n cefnogi amddiffyn oedolion a phlant ac atal cam-drin | **10 -11** |
| 4: Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r pryderon diogelu cyffredin yn yr ardal ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ychwanegol sy'n hwyluso neu sy'n ffafriol ar gyfer cyflawni ei amcanion | **11 – 14** |
| 5: Mae'r Bwrdd yn cyfathrebu'n effeithiol a phriodol gyda'i randdeiliaid | **14 – 16** |
| 6: Mae ymarferwyr yng Nghwm Taf yn derbyn neu maent yn gallu cael gafael ar hyfforddiant diogelu cyfredol o ansawdd da | **16 – 17** |
| 7: Bydd y Bwrdd yn sicrhau amddiffyniad pobl sydd, er eu diogelwch a'u lles eu hunain, angen gofal a allai eu hamddifadu o'u rhyddid ond nad oes ganddynt y gallu i gydsynio | **17 - 18** |
| **Gyda phwy rydym yn bwriadu cydweithio i gyflawni'n hamcanion?** | **19 - 20** |
| **Sut y byddwn ni'n rhoi cyfle i bobl gymryd rhan yng ngwaith y bwrdd?** | **21** |
| **Ein Cyllideb** | **22** |
| **Ydych chi'n pryderu am rywun?** | **23** |
| **Atodiadau** | |
| Aelodaeth y Bwrdd | **24 - 25** |
| Strwythur Is-grwpiau | **26** |

## DIOGELU YNG NGHWM TAF

Mae ardal Cwm Taf yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf gyda phoblogaeth o bron i 300,000.[1]

Mae cadw plant ac oedolion a allai fod ag anghenion gofal a chymorth yn ddiogel yn gyfrifoldeb i bawb. Mae hyn yn golygu teimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel yn eu cartref neu yn eu cymuned, ysgol, gweithle neu unrhyw le arall maent yn mynd iddo.

Mae **Bwrdd Diogelu Cwm Taf**[2] yn bartneriaeth statudol o asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yng Nghwm Taf. Nod y Bwrdd Diogelu yw sicrhau bod pobl o bob oed, sy'n byw yng Nghwm Taf, yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed. Mae hyn hefyd yn cynnwys atal camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed rhag digwydd.

Mae'r ddau amcan **diogelu** allweddol yn ymwneud ag **amddiffyn** ac **atal** yn sail i waith y Bwrdd Diogelu ac yn llywio'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Blynyddol hwn ar gyfer 2018/19.

Sefydlwyd **Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf** yn 2015 ac mae'n gweithredu fel man cysylltu cyntaf pob gweithiwr proffesiynol ar gyfer rhoi gwybod am bryderon diogelu ledled Cwm Taf. Mae'r Hwb wedi gwella rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau'n sylweddol, gan helpu i amddiffyn y plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed rhag niwed, esgeuluso a cham-drin.

[1] 298,116 yn seiliedig ar Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 30 Mehefin 2016, Ffynhonnell: Uned Data Cymru
[2] Cyfeirir ato drwy'r ddogfen fel y Bwrdd Diogelu neu'r Bwrdd

**Beth yw Cam-drin ac Esgeulustod?**

- Mae cam-drin yn golygu cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.
- Mae esgeulustod yn golygu methu diwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol unigolyn, sy'n debygol o arwain at nam i les yr unigolyn

## Diogelu i Bawb

Mae'r Bwrdd yn gweithio o fewn ethos y canllawiau cenedlaethol[3] i wella trefniadau diogelu i bawb a chwalu'r rhwystrau artiffisial yn seiliedig ar oedran. Mae cydweithio rhwng trefniadau diogelu plant ac oedolion yng Nghwm Taf wedi arwain at nifer o swyddogaethau ar y cyd, yn cynnwys Bwrdd Diogelu ar y cyd. Bydd y Bwrdd yn parhau i fanteisio ar bob cyfle i gydweithio ar draws y trefniadau diogelu plant ac oedolion i gefnogi cydweithio a rhannu gwybodaeth a dysgu.

## Pwy yw aelodau'r Bwrdd Diogelu?

Y Partner arweiniol ar gyfer y Bwrdd yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac mae'r aelodaeth yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Mae rhestr o'r aelodau yn Atodiad 1.

[3] Adran 111, Rhan 7 o'r Canllawiau Statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (cyfrol 1)

## PA GANLYNIADAU RYDYM AM EU CYFLAWNI ELENI?

Yn ogystal â chyflawni ei swyddogaethau craidd[4], bob blwyddyn mae'r Bwrdd Diogelu'n cytuno ar y prif ganlyniadau blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod i'w gefnogi i gyflawni ei amcanion. Mae'r canlyniadau blaenoriaeth canlynol wedi'u nodi ar gyfer 2018/19:

**1: Mae Hwb Diogelu Aml-asiantaeth Cwm Taf yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau bod plant ac oedolion sydd mewn perygl yn gallu byw bywydau diogel**

**2: Mae perfformiad y Bwrdd a'i bartneriaid yn cael ei fonitro a'i adolygu i sicrhau bod diogelu yng Nghwm Taf yn effeithiol**

**3: Mae'r Bwrdd yn cyfrannu at ddatblygu, gweithredu a monitro protocolau a gweithrefnau sy'n cefnogi amddiffyn oedolion a phlant ac atal cam-drin**

**4: Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r pryderon diiogelu cyffredin yn yr ardal ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ychwanegol sy'n hwyluso neu sy'n ffafriol ar gyfer cyflawni ei amcanion**

**5: Mae'r Bwdd yn cyfathrebu'n effeithiol a phriodol gyda'i randdeiliaid**

**6: Mae ymarerwyr yng Nghwm Taf yn derbyn neu maent yn gallu cael gafael ar hyfforddiant diogelu cyfredol o ansawdd da**

**7: Bydd y Bwrdd yn sicrhau amddiffyniad pobl sydd, er eu diogelwch a'u lles eu hunain, angen gofal a allai eu hamddifadu o'u rhyddid ond nad oes ganddynt y gallu i gydsynio**

[4] Adran 113, Rhan 7 o'r Canllawiau Statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (cyfrol 1)

Mae gan y Bwrdd strwythur pwyllgorau ac is-grwpiau ar waith i helpu i gyflawni yr amcanion blaenoriaeth hyn (gweler Atodiad 2).

Mae cynllun gwaith manwl ar gyfer y Bwrdd a'i is-grwpiau'n dod o dan y Cynllun Blynyddol strategol hwn. Bydd y cynllun gwaith yn cynnwys y camau gweithredu sy'n ofynnol i sicrhau'r gwelliannau, pwy sy'n gyfrifol, amserlenni a mesuriadau llwyddiant. Bydd cynnydd y cynllun gwaith yn cael ei fonitro a'i adolygu bob chwarter ac yn sail i'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018/19.

Mae trosolwg o'r hyn y mae'r Bwrdd yn bwriadu ei wneud i gyflawni ei ganlyniadau blaenoriaeth wedi'i nodi isod:

## Amcan Strategol 1: Mae Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau bod plant ac oedolion sydd mewn perygl yn gallu byw bywydau diogel

### Beth mae hyn yn ei olygu?

- Mae Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf yn rhan o strwythur llywodraethu Bwrdd Diogelu Cwm Taf a dyma'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pryderon diogelu a rhannu gwybodaeth.
- Y Bwrdd Diogelu sy'n gyfrifol am effeithiolrwydd yr Hwb Diogelu, ac yn unigol gyda phob un o'r asiantaethau partner sydd wedi llofnodi Cytundeb Cyfreithiol Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf.
- Mae Pwyllgor Gweithredol yr Hwb Diogelu'n goruchwylio datblygiad parhaus yr Hwb i sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni ei nod i wella diogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl.

### Y sefyllfa ar hyn o bryd

- Sefydlwyd Grŵp Sicrhau Ansawdd yr Hwb Diogelu i hyrwyddo atebolrwydd asiantaethau drwy fonitro a gwerthuso perfformiad
- Mae prosesau'r Hwb Diogelu wedi'u hadolygu i symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau
- Cwblhawyd adolygiad llety yr Hwb Diogelu i ddarparu llety gwell sy'n addas i'r diben
- Mae trwydded system rhannu gwybodaeth Mhub yr Hwb Diogelu wedi'i hymestyn i fis Mawrth 2019 fel y gellir cynnal adolygiad llawn o Mhub a systemau eraill yn 2018/19.

| Maes Blaenoriaeth | Beth sydd angen ei wella? |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Penderfyniadau ac integreiddio amlasiantaeth** | Mae angen cydgysylltu gwybodaeth, penderfyniadau ac integreiddio'n well er mwyn i Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf barhau i allu diogelu plant ac oedolion mewn perygl yn effeithiol. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Gweithredu un rhif ffôn i'r Hwb Diogelu i wella effeithlonrwydd atgyfeiriadau ffôn<br>▪ Cynnal adolygiad o swyddogaethau cymorth busnes yr Hwb Diogelu i wella cydnerthedd<br>▪ Gwella ymwneud â staff drwy gynnal sesiynau datblygu/briffio a chefnogi eu llesiant<br>▪ Cyhoeddi cyfnodolyn Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf o'r gwaith a gynhelir gan yr Hwb<br>▪ Gweithredu fformiwla cyllido y cytunwyd arno ar gyfer rhannu costau sy'n gysylltiedig â gwaith yr Hwb ar draws yr asiantaethau partner |
| **Systemau rhannu gwybodaeth** | Mae rhannu gwybodaeth gyda'r systemau priodol ar waith yn hanfodol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn yr Hwb Diogelu. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Cwblhau adolygiad o systemau rhannu gwybodaeth ac yn cytuno ar y manylebau technegol ar gyfer gofynion y dyfodol, i gynnwys gwybodaeth rheoli perfformiad<br>▪ Sicrhau bod yna system effeithiol ac effeithlon o rannu gwybodaeth ar waith i gefnogi'r Hwb Diogelu |
| **Rheoli Ansawdd a Pherfformiad yr Hwb Diogelu** | Mae angen i Grŵp Sicrhau Ansawdd yr Hwb Diogelu gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu prosesau diogelu'r Hwb i sicrhau bod gwaith amlasiantaeth yn gwella canlyniadau i blant ac oedolion mewn perygl. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Adolygu canllawiau cyfredol yr Hwb Diogelu mewn ymateb i ganllawiau Trafod Achosion Unigol Llywodraeth Cymru<br>▪ Datblygu fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer gwaith yr Hwb Diogelu sy'n cynnwys rhaglen o weithgarwch archwilio<br>▪ Sicrhau bod canlyniadau o brosesau a gweithgareddau'r Hwb Diogelu'n cael eu troi'n ddysgu priodol er mwyn helpu/datblygu strategaethau atal penodol i Gwm Taf |

## Amcan Strategol 2: Mae perfformiad y Bwrdd a'i bartneriaid yn cael ei fonitro a'i adolygu i sicrhau bod diogelu yng Nghwm Taf yn effeithiol

### Beth mae hyn yn ei olygu?

- Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am effeithiolrwydd y Bwrdd ar lefel gorfforaethol ac mae pob un o asiantaethau partner y Bwrdd yn gyfrifol am ei effeithiolrwydd hefyd
- Mae'n rhaid i'r Bwrdd gydgysylltu a herio effeithiolrwydd y gweithgareddau diogelu a gynhelir gan bob unigolyn neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd
- Mae gan bob partner o'r Bwrdd Diogelu gyfrifoldeb i sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol

### Y sefyllfa ar hyn o bryd

- Mae'r Bwrdd yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar 31 Gorffennaf bob blwyddyn sy'n nodi ei gyflawniadau am y flwyddyn flaenorol
- Mae data perfformiad mewn perthynas ag amddiffyn plant ac oedolion yn cael ei gynhyrchu bob chwarter a'i ystyried gan Is-grwpiau Sicrhau Ansawdd y Bwrdd
- Datblygwyd Fframwaith Rheoli Perfformiad i sicrhau bod y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn yn cael eu gweithredu a'u hadolygu

| Maes Blaenoriaeth | Beth sydd angen ei wella? |
|---|---|
| **Dangos effeithiolrwydd diogelu yng Nghwm Taf** | Mae angen i ni sicrhau bod y Bwrdd yn dangos sut mae'n gwneud gwahaniaeth i fywydau plant ac oedolion mewn perygl. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Cryfhau ein Fframwaith Rheoli Perfformiad i ddangos sut rydym yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y bobl rydym yn ceisio eu hamddiffyn<br>▪ Gwella'n dulliau gwerthuso i fesur effaith ein gwaith ac i gytuno ar beth yw ystyr 'da' o ran ansawdd a chanlyniadau |

| | |
|---|---|
| | ▪ Nodi meysydd arferion da mewn ardaloedd eraill i helpu i wella'n gwaith<br>▪ Llunio astudiaethau achos i ddangos arferion effeithiol ac aneffeithiol<br>▪ Cytuno ar raglenni sicrhau ansawdd ac archwilio ar gyfer y flwyddyn, i ganolbwyntio ar ymarfer diogelu amlasiantaeth<br>▪ Gwybod am y themâu cenedlaethol sy'n datblygu ym maes diogelu, yn cynnwys cyfraith achosion, adolygiadau ymarfer plant ac oedolion a newidiadau yn nhrefniadau'r bartneriaeth |
| **Adrodd am ddata** | Mae cynhyrchu data amlasiantaeth perthnasol a chywir am ddiogelu yn allweddol ar gyfer mesur effeithiolrwydd. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Sicrhau bod gan yr awdurdodau lleol systemau priodol ar waith i gynhyrchu gwybodaeth amlasiantaeth gywir ac amserol<br>▪ Adolygu'n mesurau perfformiad amlasiantaeth cyfredol i sicrhau eu bod yn gyson, perthnasol ac ystyrlon a chytuno sut y byddwn yn casglu'r data hwn<br>▪ Sicrhau ein bod ni'n rhannu gwybodaeth ar draws pob maes diogelu, yn cynnwys plant, oedolion, cam-drin domestig a chamfanteisio'n rhywiol ar blant<br>▪ Nodi agweddau ar asesiad anghenion poblogaeth strategol Cwm Taf sy'n effeithio ar waith y Bwrdd<br>▪ Dadansoddi'n data yn fwy trylwyr i ddeall themâu a thueddiadau i gefnogi gwasanaethau ataliol<br>▪ Cryfhau ein trefniadau cyfredol ar gyfer adrodd am berfformiad i sicrhau ein bod ni'n dangos effeithiolrwydd |
| **Herio a dal eraill i gyfrif yn effeithiol** | Mae'n rhaid i Fwrdd Diogelu Cwm Taf herio asiantaethau partner yng Nghwm Taf i sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith a bod asiantaethau'n cydweithio i ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Defnyddio data diogelu amlasiantaeth i wella her perfformiad diogelu ar lefel y Bwrdd<br>▪ Nodi meysydd allweddol i'w gwella drwy archwiliadau amlasiantaeth a sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu<br>▪ Derbyn, ystyried a herio adroddiadau arolygu ac adroddiadau blynyddol asiantaethau unigol ar |

lefel Bwrdd i gefnogi gwelliannau i wasanaethau

- Datblygu adroddiad archwilio asiantaethau partner i'w gyflwyno i'r Bwrdd fel asesiad o effeithiolrwydd y gweithgareddau diogelu a gynhaliwyd
- Cyfrannu at ddatblygu adnodd hunanasesu cenedlaethol i asesu effeithiolrwydd y Bwrdd yn diogelu plant ac oedolion mewn perygl

## Canlyniad Strategol 3: Mae'r Bwrdd yn cyfrannu at ddatblygu, gweithredu a monitro protocolau a gweithrefnau sy'n cefnogi amddiffyn oedolion a phlant ac atal cam-drin

### Beth mae hyn yn ei olygu?

- Mae angen i'r Bwrdd sicrhau bod protocolau a gweithdrefnau diogelu cenedlaethol yn parhau i fod yn berthnasol ac yn addas i'r diben
- Mae'n rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod protocolau lleol ar waith i gydgysylltu'r gwaith rhyngasiantaeth sy'n cael ei wneud yng Nghwm Taf
- Mae angen adolygu protocolau lleol yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gwella arferion diogelu rhyngasiantaeth

### Y sefyllfa ar hyn o bryd

- Yng Nghwm Taf, yr Is-grŵp Protocolau a Gweithdrefnau sy'n gyfrifol am ddatblygu ac adolygu protocolau a gweithdrefnau diogelu lleol ar ran Bwrdd Diogelu Cwm Taf
- Mae Bwrdd Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg wrthi'n arwain ar adolygiad amlasiantaeth o bolisïau a gweithdrefnau diogelu cenedlaethol cyfredol ar gyfer plant ac oedolion

| Maes Blaenoriaeth | Beth sydd angen ei wella? |
|---|---|
| **Gweithdrefnau Amddiffyn** | Mae'r gweithrefnau cyfredol ar gyfer diogelu plant ac oedolion yn cael eu hadolygu a bydd angen i |

| | |
|---|---|
| **Cenedlaethol** | holl Fyrddau rhanbarthol Cymru gyfrannu at a chymeradwyo'r rhain. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Parhau i gymryd rhan ym Mwrdd y Prosiect sy'n goruchwylio datblygiad y gweithdrefnau newydd<br>▪ Cymryd rhan mewn unrhyw Grwpiau Gorchwyl a sefydlir i ddatblygu'r gweithdrefnau<br>▪ Manteisio ar gyfleoedd i gynnwys ymarferwyr yn yr ymgynghoriad ar y gweithdrefnau drafft<br>▪ Darparu adborth a chymeradwyo dogfennau sy'n cael eu llunio fel rhan o'r gweithdrefnau newydd<br>▪ Sicrhau bod protocolau lleol yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn unol â'r gweithdrefnau newydd |
| **Protocolau a gweithdrefnau diogelu lleol** | Mae gan y Bwrdd gronfa ddata o brotocolau a gynhelir gan yr Is-grŵp Protocolau a Gweithdrefnau. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Sicrhau bod protocolau cyfredol sydd i fod i gael eu hadolygu'n cael eu hasesu i weld a ydynt yn parhau i fod yn ddefnyddiol ac effeithiol<br>▪ Parhau i fanteisio ar gyfle i uno protocolau plant ac oedolion i gryfhau'r ethos 'diogelu i bawb'<br>▪ Sicrhau bod protocolau a gweithdrefnau lleol newydd ond yn cael eu datblygu pan fo angen clir wedi'i nodi<br>▪ Cynnwys ac ymgynghori ag ymarferwyr wrth ddatblygu protocolau a gweithdrefnau newydd<br>▪ Manteisio ar gyfleoedd i gynnwys ac ymgynghori â'r cyhoedd wrth ddatblygu protocolau a gweithdrefnau newydd |

## Amcan Strategol 4 : Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r pryderon diogelu cyffredin yn yr ardal ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ychwanegol sy'n hwyluso neu sy'n ffafriol ar gyfer cyflawni ei amcanion

## Beth mae hyn yn ei olygu?

- Mae angen i'r Bwrdd fod yn ymwybodol o'r bobl sydd yn y perygl mwyaf o gael eu cam-drin neu o ddioddef esgeulustod a gweithio gyda darparwyr gwasanaethau i ddatblygu gwasanaethau nodi ac atal cynnar
- Mae angen hyrwyddo dulliau rhyng-asiantaeth o weithio gyda grwpiau a sefydliadau cymunedol lle gallai fod pobl mewn perygl o niwed
- Mae angen i'r Bwrdd ymateb i unrhyw ddatblygiadau polisi neu ffactorau allanol eraill a allai ddylanwadu ar ei amcanion i ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

- Yn 2017/18 nododd y Bwrdd aelodau o'r Bwrdd i 'hyrwyddo' meysydd gwaith penodol er mwyn sicrhau bod diweddariadau'n cael eu rhoi a phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar unrhyw faterion allweddol oedd yn effeithio ar grwpiau penodol o bobl agored i niwed
- Mae'r Bwrdd yn cydnabod ei rôl o ran atal cam-drin ac esgeulustod ac wedi cynnal gwaith yn ystod 2017/18 i weld sut y gellir gwella hyn
- Mae'r asiantaethau partner yn cynrychioli'r Bwrdd ar Bartneriaethau eraill ac yn darparu diweddariadau ar fentrau amddiffyn y cyhoedd, fel caethwasiaeth fodern, masnachu pobl a radicaleiddio
- Mae cysylltiadau'n cael eu sefydlu gyda Grŵp Llywio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gryfhau trefniadau diogelu ar gyfer y grŵp agored i niwed hwn

| Maes Blaenoriaeth | Beth sydd angen ei wella? |
|---|---|
| **Atal cam-drin ac esgeulustod** | Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb i atal plant ac oedolion mewn perygl rhag cael eu hesgeuluso, cam-drin neu ddioddef mathau eraill o niwed. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Sicrhau bod unrhyw ddysgu a nodwyd drwy ein gweithgareddau diogelu'n cefnogi datblygiad strategaethau atal penodol i Gwm Taf<br>▪ Sicrhau bod y data a gasglwn yn cynnwys gweithgarwch atal lleol penodol<br>▪ Ceisio deall effeithiolrwydd y gwasanaethau a'r rhaglenni ataliol yng Nghwm Taf |
| **Pontio o fod yn Blentyn i fod yn Oedolyn** | Mae gwersi o adolygiadau Ymarfer Plant/Oedolion wedi dangos bod y cyfnod o bontio o fod yn blentyn i fod yn oedolyn yn gallu bod yn anodd, yn enwedig i bobl agored i niwed. Eleni, byddwn |

| | |
|---|---|
| | yn:<br>▪ Datblygu cyfres o egwyddorion ar gyfer pontio a fydd yn cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd a'u rhannu gydag asiantaethau partner<br>▪ Nodi'r bobl ifanc sy'n debygol o fod yn y perygl mwyaf a sicrhau bod asiantaethau partner yn cydweithio i'w diogelu a'u cefnogi drwy'r broses bontio |
| **Plant sy'n derbyn Gofal** | Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod llawer o'r plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cadw'n ddiogel rhag niwed. Fodd bynnag, bydd rhai'n parhau'n agored i niwed a gallant fod â nifer o anghenion sy'n gofyn iddynt gael eu diogelu. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Sefydlu system adrodd i'r Bwrdd, gan nodi beth mae'r Bwrdd angen ei wybod am blant sy'n derbyn gofal<br>▪ Cyfrannu at y gwaith cenedlaethol ar reoli'r broses lle mae plant Cwm Taf yn cael eu lleoli y tu allan i'r ardal a lle mae plant o'r tu allan i'r ardal yn cael eu lleoli yng Nghwm Taf |
| **Camfanteisio troseddol (Llinellau Sirol)** | Mae camfanteisio troseddol ar blant ac oedolion mewn perygl yn ffurf ar niwed sy'n digwydd yn eang yn ddaearyddol. Llinellau sirol yw term yr heddlu ar gyfer gangiau trefol sy'n cyflenwi cyffuriau i ardaloedd maestrefol a threfi marchnad ac arfordirol gan ddefnyddio llinellau ffôn symudol pwrpasol neu "linellau delio". Mae'n cynnwys camfanteisio troseddol ar blant gan fod gangiau'n defnyddio plant a phobl agored i niwed i symud cyffuriau ac arian. Mae gangiau'n sefydlu presenoldeb yn y dref farchnad, fel arfer drwy gymryd cartrefi oedolion agored i niwed drosodd trwy rym neu orfodaeth mewn arfer a elwir yn 'bod yn gwcw yn y nyth' (cuckooing). Eleni, byddwn yn:<br>▪ Codi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol i ddeall natur y niwed hwn a gallu gweld arwyddion ac ymateb yn briodol<br>▪ Cysylltu â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i sicrhau bod digwyddiadau hyfforddiant amlasiantaeth yn cael eu darparu i staff perthnasol<br>▪ Sefydlu strwythur rhwng y Bwrdd a'r Bwrdd Troseddau Cyfundrefnol Difrifol ar nifer yr achosion o weithgarwch Llinellau Sirol yng Nghwm Taf |
| **Radicaleiddio** | Mae radicaleiddio plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl yn faes sy'n destun pryder cynyddol yn y DU. Er bod yna gytundeb cyffredinol am y ffactorau sy'n dylanwadu ar ba mor agored yw unigolyn i gael ei radicaleiddio nid yw dylanwad cymharol y ffactorau hyn a'r ffordd maent yn |

| | |
|---|---|
| | rhyngweithio yn glir. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Sicrhau bod gan y Bwrdd gynrychiolaeth o hyd ar y grwpiau perthnasol sy'n ymdrin â radicaleiddio (Bwrdd Herio, Panel Sianel)<br>▪ Gweithio mewn partneriaeth â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i sicrhau bod yna hyfforddiant digonol ar 'Atal' sef y gyfres amlasiantaeth o drefniadau ar gyfer atal unigolion a grwpiau rhag cymryd rhan mewn eithafiaeth dreisgar<br>▪ Codi ymwybyddiaeth gyda staff a'r gymuned i gydnabod arwyddion cynnar eithafiaeth |
| **Caethwasiaeth Fodern** | Mae caethwasiaeth fodern yn derm cyffredinol sy'n cwmpasu masnachu pobl, caethwasiaeth, gwasanaethfraint a gweithio dan orfodaeth. Gall unrhyw un fod yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern ac mae angen i'r Bwrdd sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu hadnabod a'u cefnogi'n briodol. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Sicrhau bod staff yn cael gwybod am broses y Mecanwaith Atgyeirio Cenedlaethol sy'n darparu fframwaith i adnabod, atgyfeirio a chofnodi dioddefwyr posibl o gaethwasiaeth fodern<br>▪ Cryfhau'r cysylltiadau gyda Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Cwm Taf i ailsefydlu Grŵp Llywio Caethwasiaeth Fodern Cwm Taf |
| **Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn ceisio cael cyd-ymateb gwell gan y sector cyhoeddus, arweinyddiaeth gryfach a ffocws mwy cyson ar y ffordd rydym yn mynd i'r afael â'r materion hyn yng Nghymru. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Parhau i greu cysylltiadau gyda Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Cwm Taf i sicrhau bod holl staff yr asiantaethau partner perthnasol wedi cael hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' y Ddeddf (Lefel 1 o leiaf)<br>▪ Gwella'r rhyngwyneb rhwng diogelu a MARAC[5], gan gydnabod y bydd y ddwy broses yn gweithio ochr yn ochr yn aml<br>▪ Bod yn ymwybodol o'r materion diweddaraf sy'n gysylltiedig â'r grŵp agored i niwed hwn yn cynnwys Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, trais ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod |

[5] Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth

| Canlyniad Strategol 5: Mae'r Bwrdd yn cyfathrebu'n effeithiol a phriodol gyda'i randdeiliad | |
|---|---|
| **Beth mae hyn yn ei olygu?**<br>▪ Dylai'r Bwrdd godi ymwybyddiaeth o'i amcanion i amddiffyn ac atal plant, pobl ifanc ac oedolion rhag bod mewn perygl o gam-driniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed, a darparu gwybodaeth am sut i gyflawni hyn<br>▪ Dylai plant, pobl ifanc neu oedolion sy'n cael eu heffeithio gan gyflawni swyddogaethau Byrddau Diogelu gael cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd (gweler adran 4 y cynllun hwn)<br>▪ Fel rhan o ddatblygu diwylliant dysgu cadarnhaol, dylai'r Bwrdd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dosbarthu'n eang o fewn y gweithlu i roi gwybod iddynt am arferion gorau a gwersi a ddysgwyd o adolygiadau, archwiliadau a gweithgareddau eraill y Bwrdd<br>**Y sefyllfa ar hyn o bryd**<br>▪ Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Is-grŵp Ymgysylltu, Cyfranogi a Chyfathrebu i sicrhau bod yna brosesau clir ar waith ar gyfer nodi anghenion ymgysylltu a chyfranogi<br>▪ Mae'r Bwrdd yn dosbarthu bwletin ddwywaith y flwyddyn ar gyfer gweithwyr proffesiynol yng Nghwm Taf i rannu dysgu ac arferion gorau<br>▪ Mae gwefan Bwrdd Diogelu Cwm Taf wedi'i diweddaru a'i hadolygu i wella cynnwys a defnyddioldeb<br>▪ Mae Strategaethau Cyfathrebu a Chyfranogi wedi'u datblygu i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn ystyried anghenion cyfathrebu'r rhai rydym yn eu cefnogi | |
| **Maes Blaenoriaeth** | **Beth sydd angen ei wella?** |
| **Cyfathrebu â'r cyhoedd** | Mae angen i ni feithrin cysylltiadau gwell gyda'n cymuned a rhannu gwybodaeth a dysgu ar faterion sy'n gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddiogelu. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Defnyddio'r fframwaith a nodwyd yn ein Strategaeth Gyfathrebu i gwblhau'r camau gweithredu gofynnol i ddiwallu anghenion y gymuned<br>▪ Gwella gweithgareddau codi ymwybyddiaeth drwy ddefnyddio ffynonellau bob dydd yn y gymuned fel llyfrgelloedd, meddygfeydd ac archfarchnadoedd<br>▪ Datblygu dulliau effeithiol o werthuso gwaith cyfathrebu |

| | |
|---|---|
| | ▪ Gwella presenoldeb ar-lein y Bwrdd drwy wefan Bwrdd Diogelu Cwm Taf a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol/gwefannau asiantaethau partner |
| **Cyfathrebu â staff** | Mae angen i ni gyfathrebu â staff a gweithwyr proffesiynol i ddatblygu gwybodaeth a gwell dealltwriaeth o amcanion y Bwdd. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Defnyddio'r fframwaith a nodwyd yn ein Strategaeth Gyfathrebu i gwblhau'r camau gweithredu gofynnol i ddiwallu anghenion staff a gweithwyr proffesiynol<br>▪ Sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn cymryd cyfrifoldeb am ledaenu gwybodaeth o fewn eu hasiantaethau a rhoi gwybodaeth i staff am waith y Bwrdd<br>▪ Datblygu prosesau adrodd yn ôl i gefnogi ymarferwyr |

## Canlyniad Strategol 6: Mae ymarferwyr yng Nghwm Taf yn derbyn neu maent yn gallu cael gafael ar hyfforddiant diogelu cyfredol o ansawdd da

### Beth mae hyn yn ei olygu?

- Dylai'r Bwrdd adolygu anghenion hyfforddi ymarferwyr er mwyn nodi anghenion hyfforddi
- Dylai'n strategaeth hyfforddi ystyried themâu a gwersi sy'n codi o gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd
- Mae angen i'r Bwrdd sicrhau dull hyfforddi cydgysylltiedig, sy'n ystyried gweithgarwch hyfforddi rhanbarthol a chenedlaethol, i sicrhau cysondeb a lleihau dyblygu

### Y sefyllfa ar hyn o bryd

- Mae'r Bwrdd wedi datblygu strategaeth hyfforddi amlasiantaeth sy'n cael ei monitro gan yr Is-grŵp Hyfforddi a Dysgu
- Rydym wedi datblygu rhaglen o fforymau ymarferwyr amlasiantaeth i rannu gwersi sy'n codi o archwiliadau ac adolygiadau
- Mae adran hyfforddi awdurdodau lleol yn cynhyrchu calendr hyfforddi diogelu amlasiantaeth bob blwyddyn
- Rydym wedi cynnwys fframwaith hyfforddi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn strwythur hyfforddi

| | |
|---|---|
| | cyfredol Bwrdd Diogelu Cwm Taf |
| **Maes Blaenoriaeth** | **Beth sydd angen ei wella?** |
| **Hyfforddiant Diogelu Amlasiantaeth** | Mae angen i'r Bwrdd sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar sail rhyngasiantaeth a sefydliadau unigol i helpu i amddiffyn ac atal cam-driniaeth ac esgeulustod plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o niwed. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Nodi'r arferion hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn<br>▪ Ystyried darpariaeth/ansawdd hyfforddiant diogelu asiantaethau partner y Bwrdd ymhellach i sicrhau dull cyson yng Nghwm Taf<br>▪ Ystyried gofynion hyfforddi gorfodol ar gyfer staff gwasanaethau cyhoeddus<br>▪ Diwallu'r angen i ddarparu hyfforddiant diogelu lefel uwch ar sail amlasiantaeth<br>▪ Gwella cryfder darpariaeth hyfforddiant diogelu arbenigol e.e. Lleihau Achosion o Hunanladdiad a Hunan-niwed<br>▪ Sicrhau cymaint o gyfraniadau â phosibl gan asiantaethau partner wrth ddarparu hyfforddiant diogelu amlasiantaeth |
| **Rhannu gwersi ac arferion gorau** | Mae angen i ni sicrhau bod gwersi a nodwyd o archwiliadau ac adolygiadau'n cael eu rhannu â staff ac aelodau'r Bwrdd. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Cysoni gwaith Is-grwpiau'r Bwrdd i wella dulliau o rannu gwersi a gweithredu camau gwella i wella ymarfer a sicrhau canlyniadau gwell<br>▪ Datblygu proses gyfathrebu ar y cyd ar gyfer dysgu a rennir rhwng Bwrdd Diogelu Cwm Taf a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol<br>▪ Darparu cyfleoedd dysgu/ymgysylltu rhyngweithiol i staff<br>▪ Defnyddio gwefan Bwrdd Diogelu Cwm Taf ac E-fwletin y Bwrdd i ddarparu gwybodaeth gyfredol i ymarferwyr a'r cyhoedd |

**Canlyniad Strategol 7: Bydd y Bwrdd yn sicrhau amddiffyniad pobl sydd, er eu diogelwch a'u lles eu hunain, angen gofal a allai eu hamddifadu o'u rhyddid ond nad oes ganddynt y gallu i gydsynio**

## Beth mae hyn yn ei olygu?

- Mae Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i bobl agored i niwed sydd wedi colli eu rhyddid, ond nad ydynt yn cael eu cadw o dan gyfraith iechyd meddwl
- Mae'r Trefniadau hyn yn bodoli i sicrhau nad oes unrhyw un yn colli ei ryddid heb reswm da a bod rhaid iddo ddigwydd er mwyn darparu triniaeth benodol neu gynllun gofal sydd er lles pennaf yr unigolyn
- Mae'n rhaid i'r awdurdod rheoli (y cartref gofal/ysbyty y mae'r unigolyn yn aros ynddo) wneud cais i'r corff goruchwylio perthnasol (yr awdurdod lleol neu'r Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am yr ysbyty neu'r cartref gofal) am awdurdodi colli rhyddid
- Mae'n rhaid i'r corff goruchwylio gynnal chwe asesiad i gadarnhau bod yr achos o golli rhyddid yn gyfreithlon a phriodol

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

- Mae gan y Bwrdd Bwyllgor Gweithredol Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid sy'n sicrhau bod cyfrifoldebau'r asiantaethau partner mewn perthynas ag asesiadau'r trefniadau'n cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth berthnasol
- Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo Polisi Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac mae'n cael ei weithredu ledled Cwm Taf

| Maes Blaenoriaeth | Beth sydd angen ei wella? |
|---|---|
| **Sicrhau Ansawdd Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid** | Sefydlwyd Is-grŵp Sicrhau Ansawdd i fonitro, archwilio a sicrhau ansawdd effeithiolrwydd gwaith trefniadau diogelu rhag colli rhyddid a gynhelir gan asiantaethau partner. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Gweithredu rhaglen archwilio y cytunwyd arni i nodi themâu a gwersi a ddysgwyd o achosion<br>▪ Gweithredu proses i reoli unrhyw anghytundeb ymysg gweithwyr proffesiynol<br>▪ Dadansoddi'r data sydd ar gael i ddarparu gwell dealltwriaeth i'r Bwrdd o'r perfformiad mewn perthynas â'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid |
| **Staff Cyrff Goruchwylio** | Mae galw mawr o hyd am asesiadau trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yng Nghwm Taf ac mae angen rheoli gallu staff i ymateb. Eleni, byddwn yn: |

| | |
|---|---|
| | ▪ Sicrhau bod yr hyfforddiant a roddir i staff yn cael ei weithredu'n effeithiol<br>▪ Rhannu'r gwersi a ddysgwyd o achosion i wella ymarfer |
| **Cynnwys pobl ym mhroses trefniadau diogelu rhag colli rhyddid** | Mae angen chwilio am gyfleoedd i gynnwys pobl (y cyhoedd, gofalwyr ac ati) ym mhroses trefniadau diogelu rhag colli rhyddid. Eleni, byddwn yn:<br>▪ Gwneud y defnydd gorau o wasanaethau eirioli darparwyr ac yn cynnwys y darparwyr hyn yn y gwaith o reoli proses trefniadau diogelu rhag colli rhyddid<br>▪ Gwerthuso sut rydym yn ymgysylltu â'r bobl a gefnogwn i sicrhau bod llais yr unigolyn yn cael ei glywed |

## GYDA PHWY RYDYM YN BWRIADU CYDWEITHIO i GYFLAWNI'N HAMCANION?

Mae gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill yn rhan annatod o waith y Bwrdd. Mae hyn yn golygu mwy na dim ond asiantaethau o fewn Cwm Taf gan fod llawer o swyddogaethau diogelu yn gofyn am gysondeb ledled Cymru. Gall swyddogaethau fel adolygiadau ymarfer plant ac oedolion ofyn am gydweithredu ehangach gyda Byrddau ledled y DU.

Gall fod adegau pan fydd angen i'r Bwrdd ymgysylltu â sefydliadau eraill i gyflawni ei swyddogaethau'n fwy effeithiol. Gall hyn fod ar sail ad-hoc neu'n rhan o drefniant mwy parhaol drwy aelodau'r Bwrdd neu'r Is-grwpiau.

Bydd y gweithgareddau cydweithredol hyn yn digwydd yn aml yn ystod y flwyddyn wrth i sefyllfaoedd godi a rhoddir adroddiad amdanynt yn Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf. Mae gweithgareddau cydweithredol arfaethedig wedi'u nodi, fel a ganlyn:

| Gyda phwy byddwn yn cydweithio? | Sut y byddwn yn cydweithio? |
|---|---|
| **Byrddau Diogelu Eraill (yn cynnwys Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf)** | ▪ Rhwydweithiau cyfredol ledled Cymru i rannu arferion da<br>▪ Grwpiau Gorchwyl a Gorffen i wneud darnau o waith penodol<br>▪ Paneli Adolygu Ymarfer Plant ac Oedolion fel bo angen |
| **Asiantaethau diogelu ym Mhen-y-bont ar Ogwr** | ▪ Yn sgil yr uno arfaethedig gyda Chwm Taf byddwn yn cysylltu ac ymgynghori â staff ac asiantaethau partner ym Mhen-y-bont ar Ogwr am asesiad o effaith<br>▪ Wrth gadarnhau'r uno byddwn yn cynnal Diwrnod Datblygu Diogelu i asiantaethau partner Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr cyn gweithredu |
| **Partneriaeth Diogelu Cymunedol** | ▪ Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r Bartneriaeth i gydgysylltu a chwblhau Adolygiadau Dynladdiadau Trais Domestig a chreu'r cysylltiadau gyda'r Broses Adolygiadau Plant/Oedolion<br>▪ Byddwn yn creu'r cysylltiadau angenrheidiol gyda'r Bartneriaeth i weithredu strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i sicrhau bod staff yn cael eu |

| | |
|---|---|
| | hyfforddi'n ddigonol a dioddefwyr yn cael cymorth priodol<br>▪ Cynrychiolaeth briodol gan asiantaethau partner Bwrdd Diogelu Cwm Taf ar grwpiau'r Bartneriaeth (yn cynnwys Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Chynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg, Bwrdd Troseddau Cyfundrefnol Difrifol) ac i'r gwrthwyneb i sicrhau bod materion diogelu'n cael eu trafod ac arferion da'n cael eu rhannu |
| **Llywodraeth Cymru (yn cynnwys Grŵp Cynghori'r Gweinidog)** | ▪ Rhwydweithiau Rheolwyr Busnes a Chadeiryddion Byrddau<br>▪ Cyfrannu at ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru<br>▪ Cymryd rhan mewn grwpiau perthnasol i rannu arbenigedd a gwersi ledled Cymru |
| **Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol** | ▪ Drwy gynrychiolaeth ganddo ar y Bwrdd, diweddariadau a rhannu gwybodaeth<br>▪ Cyfarfodydd â Chadeiryddion Byrddau a Rheolwyr Busnes<br>▪ Datblygu llwyfan cyd-ddysgu fel y gall Bwrdd Diogelu Cwm Taf ddylanwadu ar waith y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol neu dywys ei waith yn ogystal â rhannu gwersi sy'n codi o waith a wneir gan y Bwrdd |
| **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** | ▪ Bydd y Bwrdd yn parhau i ddarparu adroddiadau ar y prif bwyntiau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn sefydlu proses ar gyfer adrodd yn ôl i'r Bwrdd ar feysydd o ddiddordeb allweddol<br>▪ Cydweithio ar reoli busnes i leihau dyblygu gwaith a datblygu ymagwedd gyson at waith partneriaeth |
| **Y Trydydd Sector** | ▪ Gallu cael gafael ar wasanaethau arbenigol fel BAWSO[6] i ddatblygu gwybodaeth ac arbenigedd<br>▪ Gallu cael gafael ar wybodaeth fel DEWIS[7] i gefnogi gwasanaethau ataliol |

[6] BAWSO – elusen sy'n darparu cymorth i gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
[7] DEWIS yw'r lle i gael gwybodaeth am lesiant yng Nghymru

## SUT Y BYDDWN NI'N RHOI CYFLE I BOBL GYMRYD RHAN YNG NGWAITH Y BWRDD?

Mae'n rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod plant ac oedolion yn cael cyfle i gymryd rhan yn ei waith. Rydym am sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth well am waith y Bwrdd ac yn gallu herio'n agored.

Mae angen i ni ymgysylltu'n greadigol â phlant, pobl ifanc ac oedolion i wella eu cyfraniad at waith y Bwrdd a chodi proffil diogelu. Eleni, byddwn yn ceisio cynyddu nifer y digwyddiadau ymgysylltu a gynhelir ar gyfer y cyhoedd, gwella cysylltiadau â fforymau lleol a grwpiau gweithgareddau i sicrhau bod lleisiau'r bobl rydym yn eu cefnogi yn cael eu hymgorffori'n drylwyr yn ein gwaith.

Rydym am sicrhau bod unrhyw adborth a ddarperir yn cael ei gofnodi a'i werthuso, gan ddangos hyn yn ein Hadroddiad Blynyddol.

| Sut y byddwn ni'n rhoi cyfle i bobl gymryd rhan? | Pryd? |
|---|---|
| Eiriolaeth – mae hyn yn sicrhau bod pawb, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn gallu mynegi eu safbwyntiau a'u dymuniadau pan wneir penderfyniadau sy'n efffeithio arnynt | Pan fo angen ac adrodd i grwpiau Sicrhau Ansawdd y Bwrdd |
| Diwrnod Datblygu Blynyddol y Bwrdd – cynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl yn y diwrnod datblygu i ddylanwadu ar flaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer y flwyddyn | Ionawr 2019 |
| Sefydlu Bwrdd Ieuenctid – defnyddio grwpiau ieuenctid a chynghorau ysgol sy'n bodoli eisoes fel y gall pobl ifanc rannu eu safbwyntiau ar faterion diogelu sy'n effeithio arnynt | Erbyn diwedd 2018 |
| Grwpiau Ffocws/Paneli Dinasyddion – cysylltu â grwpiau cyfredol o unigolion i ymgynghori ar ddatblygiadau'r Bwrdd | Dwywaith y flwyddyn |
| Defnyddio partneriaid y Trydydd Sector i ddosbarthu gwybodaeth drwy eu rhwydweithiau | Fel bo angen |
| Wythnos Diogelu Genedlaethol – trefnu digwyddiad sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd yn | Tachwedd 2018 |

| | |
|---|---|
| cynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion, gofyn i bobl i rannu eu straeon a'u profiadau | |
| Cynnal digwyddiad "dathlu" arferion da i staff diogelu | Erbyn Mawrth 2019 |

## EIN CYLLIDEB AR GYFER 2018/19

Mae’r Bwrdd wedi cytuno ar gyllideb ar gyfer y flwyddyn sy’n cael ei hariannu drwy gyfraniadau ariannol gan yr asiantaethau partner statudol (awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Heddlu Dyfed Powys, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru).

Bydd y gyllideb a bennir yn galluogi’r Bwrdd i gyflawni ei amcanion blaenoriaeth fel y nodwyd yn y Cynllun Blynyddol ac yn cael ei dyrannu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Costau Staff a Llety Uned Rheoli Busnes: | £187,355 |
| Hysbysebu a Chyfieithu: | £4,000 |
| Gwariant Cyffredinol: | £5,600 |

## Ydych chi'n pryderu am rywun?

Os ydych chi'n amau bod **plentyn neu berson ifanc** yn cael ei niweidio neu mewn perygl o gael ei niweidio mae gennych chi ddyletswydd i roi gwybod am hynny'n syth. Mae pob galwad sy'n ymwneud â phryderon am blant yn cael eu trin o ddifrif. Cysylltwch â'ch Tîm Diogelu lleol ar y rhifau isod:

Rhondda Cynon Taf: 01443 425006
Merthyr Tudful: 01685 725000

Oriau Agor:
Llun - Iau 8.30am - 5.00pm
Gwener - 8.30am - 4.30pm

Os ydych chi'n amau bod **oedolyn** yn cael ei niweidio neu mewn perygl o gael ei niweidio mae gennych chi ddyletswydd i roi gwybod am hynny'n syth. Mae pob galwad sy'n ymwneud â phryderon am oedolion agored i niwed sydd mewn perygl cael eu trin o ddifrif. Cysylltwch â'ch Tîm Diogelu lleol ar y rhifau isod:

Rhondda Cynon Taf: 01443 425006
Merthyr Tudful: 01685 725000

Oriau Agor:
Llun - Iau 8.30am - 5.00pm
Gwener - 8.30am - 4.30pm

Os ydych am gysylltu â Gwasanaethau Plant neu Oedolion y tu allan i oriau swyddfa, ar y penwythnos a gwyliau banc, ffoniwch Dîm Dyletswydd Brys Cwm Taf ar 01443 743665.

**Os ydych yn amau bod plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl uniongyrchol o niwed ffoniwch 999 a siaradwch â'r Heddlu.**

Os hoffech roi gwybod am ddigwyddiad nad yw'n ddigwyddiad brys, neu fod gennych broblem neu ymholiad cyffredinol, gallwch ffonio 101, rhif y heddlu ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys . ***Defnyddiwch 101 pan fydd y digwyddiad yn llai brys na 999.***

## Cofiwch – mae diogelu yn fusnes i bawb!

**Am ragor o wybodaeth a chyngor, ewch i: www.cwmtafsafeguarding.org**

## ATODIAD 1 – AELODAETH Y BWRDD

| ENW | TEITL | ASIANTAETH |
|---|---|---|
| Gio Isingrini<br>Philip Howells<br>Jackie Neale<br>Neil Elliot<br>Julie Clark<br>Esther Thomas<br>Ann Batley<br>Meira Jones | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol a Phlant (Cyd-gadeirydd)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai Cymunedol<br>Rheolwr Gwasanaethau Diogelu Oedolion<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau, Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Diogelu a Chymorth (Plant)<br>Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes Dros Dro<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau, Gwasanaethau Plant<br>Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Gofal Cymunedol a Phlant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Lisa Curtis-Jones<br>Alex Beckham<br>Alyn Owen<br>Susan Walker<br>Annabel Lloyd<br>Mark Anderton<br>Carys Kennedy | Prif Swyddog, Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyd-gadeirydd)<br>Prif Reolwr Diogelu<br>Prif Swyddog, Adfywio Cymunedol<br>Prif Swyddog, Addysg<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |

| | | |
|---|---|---|
| Lynda Williams<br>Jane Randall | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Nyrsio, Bydwreigiaeth a Chleifion<br>Pennaeth Diogelu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf |
| Phil Ashby<br>Beth Aynsley/Sue Hurley | Uwcharolygydd<br>Rheolwr Amddiffyn Annibynnol Personau Agored i Niwed | Heddlu Dyfed Powys |
| Eirian Evans | Prif Swyddog Cynorthwyol | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| David Bebb | Prif Weithredwr Cynorthwyol | Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru |
| Ian Davy | Prif Swyddog | Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful |
| Nicola Kingham | Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Cwm Taf | Uned Busnes Bwrdd Diogelu Cwm Taf |
| Lyndon Lewis | Pennaeth Gwasanaeth | Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Cwm Taf |
| Jean Harrington | Cyfarwyddwr / Cadeirydd Interlink | TEDS (Gwasanaethau Triniaeth ac Addysg Cyffuriau) |
| Linda Davies | Nyrs Ddynodedig (Tîm Diogelu Cenedlaethol) | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Nikki Harvey | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Jan Pickles | Aelod Bwrdd Cenedlaethol | Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol |

# ATODIAD 2 – STRWYTHUR Y BWRDD

